



Cartref Gofal

ClwydAlyn

# Merton Place

**Mae Merton Place yn cynnig amgylchedd cyfeillgar, cynnes a gofalgar i bobl hŷn y mae angen gofal preswyl, nyrsio a lliniarol arnynt.**

**Mae cartref gofal Merton Place mewn adeilad pwrpasol yn nhref Bae Colwyn, ar arfordir Gogledd-orllewin Cymru.**

Mae'n cynnig cyfleusterau cartrefol, a staff sydd wedi ymroi i ddarparu gofal a chymorth 24 awr o'r safon uchaf. Dyma gartref yng ngwir ystyr y gair, lle gall preswylwyr fyw'n gyfforddus a byw eu bywydau gorau, ni waeth beth yw eu hanghenion iechyd a chymorth.

Mae ein hystafelloedd ymolchi golau, diogel a chyfforddus yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol. Mae ein cogyddion yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn gwybod beth yw anghenion a hoff fwydydd ein preswylwyr ac maent yn paratoi prydau maethlon, o ansawdd uchel.

Rydym yn credu mewn hybu annibyniaeth a darparu cymorth yn ôl yr angen, gan gydnabod bod pawb yn wahanol a bod gan bawb ddiddordebau gwahanol. Mae digon o le yma, a lolfa ar bob llawr, felly gall preswylwyr gymdeithasu os ydynt yn dymuno, neu ddod o hyd i rywle tawel i ymlacio.

Os ydych chi'n chwilio am dawelwch meddwl, cysur ac annibyniaeth gall Merton Place roi'r cyfan i chi. Mae'r cartref dan ofal tîm staff profiadol ac rydym yn ddarparwr llety arbenigol sefydledig ac uchel ein parch.

# Pam dewis Merton Place?



### Cartref gofal mewn adeilad pwrpasol

Cartref gofal mewn adeilad pwrpasol gyda chyfleusterau en-suite, lolfa a chegin fach ar bob llawr.



### Ein Gofal

Mae gofal a chymorth 24 awr a'n tîm nyrsio medrus yn sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion pobl wrth iddynt newid.



### Gweithgareddau a digwyddiadau

Mae gennym Gydlynydd Gweithgareddau sy'n trefnu pob math o ddigwyddiadau a gweithgareddau, gan roi'r dewis i breswylwyr ymuno a chymdeithasu os ydynt yn dymuno.

- **Gofal nyrsio a system alw Nyrsys**
- Gofal preswyl
- **54 ystafell sengl**
- Cyfleusterau en-suite
- **Lolfa ar bob llawr**
- Cegin fach ar bob llawr
- **Salon trin gwallt**
- Ffioedd cystadleuol – sy'n fforddiadwy i bawb





- **Cydlynydd gweithgareddau**
- Gofal a chymorth hyblyg
- **Tîm hyfforddedig proffesiynol a chyfeillgar iawn**
- Yn addas i gadeiriau olwyn
- **Ardal ysmygu**
- Mynediad i'r rhyngrwyd ar gael
- **Prydau maethlon, amrywiol,**
- **o ansawdd uchel**
- Mewn ardal gadwraeth dawel a diogel

# Ein Harolygiad diweddaraf



## Dyma rai o uchafbwyntiau arolygiad swyddogol diweddaraf Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer Merton Place:

### Lles

- Mae gan breswylwyr reolaeth dros eu bywydau bob dydd, ac maent yn gallu gwneud dewisiadau o ran prydau, gweithgareddau, a'u gofal personol.
- Mae teimlad cryf o gymuned yn cael ei feithrin drwy ymweliadau gan blant ysgol lleol a rhaglen weithgareddau.
- Mae iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth, ac mae staff yn ymateb yn gyflym i alwadau am gymorth.
- Mae mesurau diogelu yn sicrhau bod preswylwyr yn cael eu hamddiffyn, a gofynnir am eu barn yn rheolaidd.

### Gofal a Chymorth

- Mae cynlluniau gofal personol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu anghenion a dewisiadau'r unigolyn.
- Mae staff yn cael eu canmol am eu hagwedd gyfeillgar, dosturiol ac ymatebol.
- Mae amrywiaeth o weithgareddau difyr, gan gynnwys adloniant a digwyddiadau cymdeithasol, yn gwella ansawdd bywyd preswylwyr.
- Mae'r safonau hylendid a rheoli heintiau yn uchel, ac mae staff hyfforddedig yn goruchwylio'r gofal.


### Amgylchedd

- Mae'r cartref yn hygyrch iawn, gydag ystafelloedd eang, coridorau llydan, ac ystafelloedd cawod mawr ensuite.
- Mae'r ardaloedd cyffredin yn cael eu cynnal a'u haddurno'n dda, gan cynnig cysur a lle braf i gymdeithasu.
- Cynhelir archwiliadau diogelwch rheolaidd, ac mae'r systemau diogelwch tân yn cael eu diweddaru i wella diogelwch.
- Mae'r cartref yn agos at amwynderau lleol a chysylltiadau trafnidiaeth.

### Arweinyddiaeth a Rheolaeth

- Mae llywodraethu cryf yn sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel, a rhoddir ystyriaeth i archwiliadau rheolaidd ac adborth preswylwyr.
- Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn gweithio'n dda fel tîm, gan dderbyn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mae prosesau recriwtio yn sicrhau y darperir gofal gan staff cymwys sydd wedi bod yn destun prosesau gwirio manwl.
- Mae gwelliannau diweddar i fonitro diogelwch tân yn dangos ymrwymiad y darparwr i wella'n barhaus.

# Lleoliad



**Mae gan Merton Place erddi hardd sydd wedi'u tirlunio, sy'n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae'r cartref ei hun mewn ardal gadwraeth dawel.** Mae amwynderau a siopau lleol o fewn cyrraedd hwylus ar droed ac mae cysylltiadau trafnidiaeth cyfleus gerllaw. Mae Merton Place yn rhan o'r gymuned leol, ac yn darparu lefel uchel o breifatrwydd a diogelwch i'r preswylwyr.

Hoffem estyn croeso cynnes iawn i chi ymweld â Merton Place er mwyn i chi weld drostoch chi eich hun y safon uchel o ofal rydym yn ei ddarparu. Yn ystod eich ymweliad gallwch ofyn cwestiynau, cyfarfod ein tîm, a phrofi naws ein cymuned gefnogol a chyfeillgar.

**~~Scan here to see a video of Merton Place:~~**





## Barn ein teuluoedd:

**Adolygiad gan D M (Merch Preswyliwr) -**
*"Mam yw'r peth mwyaf gwerthfawr sydd gennyf ac mae gwybod ei bod hi'n derbyn gofal da yn fendith. Mae mam wedi bod yn Merton Place am bron i 7 mlynedd a hoffwn ganmol y staff am eu gofal arbennig, ac am gadw mewn cysylltiad â'r teulu. Mae rhoi aelodau'r teulu mewn cartref gofal yn benderfyniad anodd ond mae cael cartref gofal gwych yn helpu i leddfu unrhyw bryderon."*

**Adolygiad gan P T (Gŵr Preswyliwr) -**
*"Cartref gwych a staff rhagorol. Mae fy ngwraig yn hapus iawn yno ac mae hi'n teimlo'n gartrefol. Mae'r cyfleusterau'n dda ac mae'r digwyddiadau wythnosol i breswylwyr wedi'u trefnu'n dda. Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar iawn, ac mae fy ngwraig yn derbyn gofal da iawn. Rwyf yn argymell y cartref yn fawr iawn. Diolch i'r holl staff am bopeth maen nhw'n ei wneud."*

## Manylion cyswllt:

Merton Place

01492 523375

www.clwydalyn.co.uk/merton-place

8 Rhodfa Pwllycrochan
Bae Colwyn, Conwy, LL29 7BU

Mae Merton Place yn cael ei reoli gan ClwydAlyn, darparwr llety a gwasanaethau gofal arbenigol hen sefydledig ac uchel ei barch.